# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION - CYFARFOD IONAWR

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 12fed o Ionawr 2021** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Cyfarfod Rhithiol drwy Zoom** |

v-

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd pawb i’r cyfarfod gan ddymuno blwyddyn newydd dda i’r aelodau.<br><br>**YN BRESENNOL** heno roedd: Sara Williams **(SW),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Cyng. Aled Jones **(AJ),** Ynyr Ellis **(YE)**, Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**. |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | John Owen **(JO),** William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **3.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | SP yn datgan ei diddordeb ar bwynt 11 a) sef Cais am gymorth ychwanegol gan Bwyllgor y Cae chwarae. Mae SP yn Aelod o Bwyllgor y Cae Chwarae. |
| **4.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Ni dderbyniwyd sylwadau ar y noson. |
| **5.** | **COFNODION CYFARFOD RHAGFYR, 2020** |
| | **a) CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br>Cynigwyd y Cofnodion yn gywir gan GW gyda GJ yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b) MATERION YN CODI**<br><br>**I. Biniau Baw Ci**<br><br>Diolchodd LJ I GJ am osod y biniau baw ci.<br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi gwneud trefniadau gyda Swyddog priodol Cyngor Gwynedd i’r Cyngor Cymuned dderbyn arwyddion Cymraeg i’r biniau baw ci.<br>Hyd yn hyn nid oeddent wedi eu derbyn, y Clerc I wneud ymholiadau pellach.<br><br>Cytunodd GW ymweld â chyflwr y biniau a chysylltu ar Clerc os bydd angen gwneud trefniadau i’w gwagio.<br>Adrodd GJ bydd yn gyrru anfoneb i’r Clerc am gost y deunyddiau i osod y biniau. |
| **6.** | **GÔR YRRU YN YR ARDAL** |
| | Esboniodd y Clerc ei bod yn ystod y mis wedi cysylltu gyda’r Rheolwr Gwylio Cyflymder Cymunedol sydd yn awyddus iawn i gael trefn ar hyfforddi’r gwirfoddolwyr cyn gynted â phosibl, i'r nod hwnnw mae wedi paratoi cwrs y gellir ei gwblhau ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams. Os bydd modd cwblhau'r hyfforddiant yn ystod y broses gloi lefel 4 hon wedyn gallant gwblhau'r hyfforddiant ymarferol cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi. |

| | |
|---|---|
| | Bydd y cwrs ar gael yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Bydd hefyd yn anfon ffurflenni cais y mae'n rhaid i'r gwirfoddolwyr eu llenwi.<br><br>Cytunwyd yn flaenorol bydd SP ac LJ yn gwirfoddoli gyda dau wirfoddolwr o'r gymuned. Y Clerc i wneud y trefniadau perthnasol ac ymestyn gwahoddiad i'r Swyddog i gyfarfod cyntaf y Cyngor yn y Ganolfan wedi'r cyfyngiadau presennol ymlacio. |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw gais Cynllunio yn uniongyrchol yn ystod y mis.<br>Esboniodd yr Aelod Lleol bod cyn Clerc Llanaelhaearn wedi derbyn cais ar gyfer Gerallt, Llithfaen sef Cais: C20/086843/LL yn debyg mewn camgymeriad.<br><br>Wedi trafodaeth penderfynwyd i'r Clerc gysylltu ag Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd yn eu hysbysebu o'r camgymeriad a gadael iddynt wybod nad oedd gan Cyngor Cymuned Pistyll unrhyw wrthwynebiad i'r cais. |
| **8.** | **GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO** |
| | Yn ystod y mis roedd y Clerc wedi derbyn cymorth gan Swyddog Cyfreithiol Cyngor Gwynedd i lunio llythyr swyddogol ar ran y Cyngor Cymuned. Awgrymodd y Swyddog ofyn am gymorth yr heddlu i'w ddanfon i'r unigolyn yn y maes parcio.<br><br>Esboniodd y Clerc bydd rhaid gwneud cais swyddogol i Adran Gyfreithol y Cyngor Sir a gymorth pellach os na fydd y mater wedi ei ddatrys ar ôl danfon y llythyr.<br><br>Gan fod peryg o wrth daro a thrais y Clerc i ofyn i'r heddwas ddanfon y llythyr ar ran y Cyngor er mwyn cadw'r heddwch. Os na fydd posib i drefnu hyn, y Clerc i ofyn iddynt gymorth GW i'w ddanfon. Y Clerc hefyd i holi'r heddwas am enw cywir yr unigolyn. |
| **9.** | **Y GANOLFAN** |
| | Nid oedd SP wedi cael hwyl ar gysylltu ar Swyddog priodol yng Nghyngor Gwynedd i wneud trefniadau parthed Les y Ganolfan.<br><br>Y Clerc i gysylltu â'r Swyddog i esbonio nad oes mannau parcio wedi ei amlinellu ar y safle a gwneud trefniadau i dderbyn y Les er mwyn cael ei harwyddo. |
| **10.** | **MATERION LLEOL** |
| | GJ - Yn ystod y mis roedd un o drigolion y pentref yn lwcus i osgoi damwain gyda modurwr yn gyrru wrth y groesffordd ar Lon Rhosydd yn y pentref. Esboniodd GJ ei bod wedi cynhyrfu a dychryn gan ei bod yn gwthio pram ar y pryd. Roedd y modurwr wedi stopio i ymddiheuro ac nid oedd cwyn wedi ei wneud i'r heddlu.<br><br>Y Clerc i gysylltu â Swyddog priodol Cyngor Gwynedd i ofyn iddo a bydd posib lleoli arwydd i hysbysebu bod cerddwyr ar y lon. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad.................................................*

| 11. | GOHEBIAETH A GWYBODAETH |
|---|---|
| | **a) CAIS AM GYMORTH YCHWANEGOL GAN BWYLLGOR CAE CHWARAE LLITHFAEN**<br><br>Esboniodd SW bod y Cae Chwarae yn y broses o wneud cais am grant gan Gronfa Datblygu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol er mwyn gwneud gwelliannau i'r cae chwarae e.e. draenio'r tir fel nad yw'r cae yn mynd yn fwdlyd, creu llwybrau i wella mynediad i gadeiriau olwyn a beics, a chreu ardal natur. Bydd hyn yn wedd gyntaf. Byddai adnewyddu'r offer chwarae yn ail wedd, a byddent angen gwneud cais am grantiau eraill i hynny.<br><br>Roedd y swyddog sy'n ymwneud â'r grant AHNE wedi pwysleisio fod cael cyfraniadau ariannol tuag at y prosiect o ffynonellau ar wahân i'r grant yn debygol o gynyddu siawns y cais o<br><br>lwyddo. Mae'r ceisiadau yn cael eu barnu yn ôl pwyntiau a ddyfernir am amrywiol elfennau, ac mae cyfraniad ariannol o fannau eraill yn ennill pwyntiau.<br><br>Roedd y Pwyllgor Cae chwarae felly yn gofyn yn garedig am gyfraniad ariannol tuag at y fenter hon. Byddai hyn yn ychwanegol i'r swm bydd y Cyngor Cymuned yn ei gyfrannu tuag at yswiriant y cae chwarae yn flynyddol.<br><br>Bydd yn gost i wneud y gwaith o gwmpas £6,000. Byddai unrhyw swm hyd at £1000 yn cael ei dderbyn yn ddiolchgar iawn a'i ddefnyddio i roi gwerth am arian yn amgylcheddol, yn weledol, ac yn gymdeithasol i blant a phobl y pentref.<br><br>Wedi trafodaeth ar oblygiadau gwarged a rhagamcanion y Cyngor am weddill y flwyddyn ariannol cynigiodd LJ gefnogi'r cais am £1000.00 eiliodd GJ a chytunodd pawb.<br><br>Y Clerc i anfon tystiolaeth am nawdd o £1000.00 i Bwyllgor y Cae Chwarae ac addewid bydd y rhodd yn cael ei ryddhau fis Mawrth.<br><br>**b) CRONFA DATBLYGU GYNALIADWY AHNE LLŶN**<br>Y Clerc wedi anfon y wybodaeth i'r aelodau yn flaenorol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.<br><br>**c) CAIS AM GYMORTH GAN RADIO YSBYTY GWYNEDD**<br>Y Clerc wedi anfon y wybodaeth i'r aelodau yn flaenorol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.<br><br>**d) TWRISTIAETH A CHYFLOGAETH - HOWARD HUWS CYDLYNYDD YMGYRCH DWRISTIAETH CYLCH YR IAITH.**<br>Y Clerc wedi anfon y wybodaeth i'r aelodau yn flaenorol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.<br><br>**e) AWYR DYWYLL LLŶN - CYFARFOD 27 IONAWR**<br>Y Clerc wedi anfon y wybodaeth i'r aelodau yn flaenorol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod. |

*Llofnodwyd gan.............................................................................Dyddiad...................................................*

| 12. | CYLLID |
|---|---|
| | **a) CYFRIFON 2020/21**<br>Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad ar rhagamcanion.<br>Cynigiodd GW eu cywirdeb gyda GJ yr eilio a phawb yn cytuno. |

**b) TRAFODION Y GYFRIFLEN BANC DIWEDDARAF**

| **Cyfrif Cyfredol** | | |
|---|---|---|
| Taliadau - | £218.04 | Glasdon UK – Biniau Baw Ci |
| | £160.00 | Cyflog y Clerc |
| | £20.15 | Treuliau'r Clerc |
| **Balans 31 Rhagfyr 2020** | | **£8,742.78** |

| **Cyfrif Cadw** | |
|---|---|
| Derbyniadau - | 0.07 |
| **Balans 6 Ragfyr 2020 -** | **£2,660.66** |

**c) TALIADAU A GYMERADWYWYD YN Y CYFARFOD**

| | |
|---|---|
| £160.00 | Cyflog y Clerc |
| £14.00 | Treuliau'r Clerc |
| | |

| 13. | TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF |
|---|---|
| | **Trefniadau i gyd fynd a chyfyngiadau'r Llywodraeth.**<br>**9fed o Chwefror 2021** |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad..................................................*